

MoneySense

Deall a rheoli eich orion



Cynnwys

Cyflwyniad

Ystyried pethau

- Cynllun cyllid

Gweithredu

- Mae pob ceiniog o bwys
- Sut i gwtogi eich gwariant
- Sut i gynyddu eich incwm
- Dechrau cynilo
- Benthycu'n ddoeth
- Bod yn barod

3

4

6

8

9

9

10

11

14

18

Delio â'r annisgwyl

- Colli eich swydd
- Ysgariad/Tor-perthynas
- Salwch
- Profedigaeth
- Cael baban
- Ymddeol

21

21

22

22

23

24

24

Delio â dyled

25

Cysylltiadau defnyddiol eraill

29

CONSUMER CREDIT *Counselling Service*

A Registered Charity

Adolygwyd y cynnwys gan y Consumer Credit Counselling Service (CCCS) a chefnogir y cyfarwyddyd ariannol a ddarperir. www.cccs.co.uk

Am wybodaeth bellach



natwest.com/moneysense

Cyflwyniad

Does dim ots ble rydym ni mewn bywyd,
rhaid inni i gyd reoli ein cyllid.

Rywbryd neu'i gilydd, mae'n debyg y gallai pawb ohonom
ymelwa ar ychydig gyngor ariannol ar hyd y daith...

Yn NatWest, rydym am eich helpu – dyna pam rydym wedi
cyhoeddi'r cyfarwyddyd hwn. Mae'n rhan o'n rhaglen
MoneySense, a'i amcan yw eich helpu i gael gafael ar
eich cyllid.

Nid yw'n gwrs carlam mewn rheoli ariannol. Ond os ydych
am deimlo'n fwy hyderus am reoli eich arian, am baratoi at y
dyfodol, ac am ddelio â phethau os ydynt yn mynd o chwith,
dyma fan cychwyn rhagorol.

Ystyried pethau

Cyn y gallwch gymryd y cam cyntaf tuag at ddeall eich cyllid yn llawn, bydd angen gwybod am eich union sefyllfa.

Nid gwaith i'r Canghellor yn unig yw trefnu cyllideb. Mae'n rhywbeth i bob un ohonom ei ystyried rywbryd neu'i gilydd. A'r ffordd hawsaf o benderfynu'r hyn y gallwch (neu na allwch) chi ei fforddio yw nodi ar bapur pa arian sy'n dod i mewn – a'r hyn y mae'n rhaid ei wario.

Does dim angen i hyn fod yn brofiad brawychus. Yn wir, rydym yn trefnu ein cyllid o hyd – hyd yn oed wrth gyfrif y newid yn ein pocedi er mwyn gweld a oes digon i brynu coffi a thalu am docyn bws adref.

Wrth gwrs, pan ddaw'n fater o gynllunio cyllid i chi ac i'ch teulu, mae llawer mwy i'w ystyried. Ond does dim angen iddi fod yn fwy cymhleth. Adiwch eich holl incwm a thynnwch eich holl filiau hanfodol a gwariant arall. Y peth gorau yw gwneud ar gyfer pob mis – hyd yn oed os byddwch chi'n derbyn tâl bob wythnos – oherwydd dyna sut mae'r rhan fwyaf o filiau rheolaidd yn cael eu talu. Gellir gwario neu gynilo'r gweddill. Bydd y ffurflen gyllid ar dudalennau 6 a 7 o help ond, am y tro, gadewch inni edrych ar y math o bethau i'w hystyried.

Incwm

I'r rhan fwyaf o bobl, eich ffynhonnell incwm gyntaf ac amlycaf fydd y cyflog am eich swydd, ac incwm eich partner neu'ch cymar. Ond mae pethau eraill i'w hychwanegu hefyd. Er enghraifft, mae'n bosibl bod hawl gennych chi i gredydau treth a Budd-dal Plant.

Os ydych chi ar incwm isel, mae'n werth edrych a oes gennych chi hawl i unrhyw fudd-daliadau eraill, megis credyd pensiwn i'ch helpu gyda'ch treth gyngor neu'ch rhent. Ceir lwfansau hefyd ar gyfer pobl anabl a'u cynhalwyr. Bydd eich Canolfan Cyngor ar Bopeth yn gallu darparu rhagor o wybodaeth. Neu, gweler y rhestr o enwau cyswllt yng nghefn y llyfryn hwn.

Dylech gynnwys llog ar gynilon hefyd, yn enwedig os oes cyfrif gennych sy'n talu incwm bob mis. Ond peidiwch â chael eich temptio i gynnwys incwm dyfodol na allwch chi fod yn siŵr ohono, megis rhoddion neu gymynroddion. Mater o fod yn onest â chi'ch hun – a bod yn realistig – yw paratoi cyllideb.



Gwariant

Bydd eich gwariant yn perthyn i sawl categori, gan ddechrau gyda'r hanfodion a gorffen gyda'r gwariant er pleser.

Eich cartref – Mae'r biliau hyn yn hollbwysig os ydych chi am gael rhywle i fyw. Os nad ydych chi'n talu eich morgais neu unrhyw fenthyciad sydd wedi'i sicrhau ar eich cartref, gallai'r benthyciwr ddwyn achos i atafaelu eich cartref. Os nad ydych chi'n talu eich rhent, nid yn unig y gallech chi gael eich troi allan ond gallai eich landlord fynd â chi i'r llys i gael yr arian sy'n ddyledus.

Biliau hanfodol – Dyma'r biliau y mae'n rhaid ichi eu talu, neu wynebu canlyniadau difrifol. Gallai peidio â thalu gorchmynion am dreth incwm, a thaliadau cynhaliath a thaliadau cynnal plant olygu dirwy, neu hyd yn oed gyfnod o garchar. Ac os nad ydych chi'n talu eich trwydded teledu, gallech gael dirwy o hyd at £1,000.

Eich swydd – Os ydych chi am ei chadw, mae angen cyrraedd yno. Felly rhowch flaenoriaeth bob amser i unrhyw filiau sy'n ymwneud â theithio i'r gwaith. Gallent gynnwys costau cludiant cyhoeddus, neu gostau rhedeg car, megis yswiriant, petrol a chytundebau hurbwrcasu.

Biliau gwasanaethau – Mae'n hawdd cymryd nwy, trydan a'r ffôn yn ganiataol. Ond os nad ydych chi'n talu'r biliau, fe gollwch y gwasanaeth – a gallai'r cwmnïau fynd â chi i'r llys i gael y ddyled yn ôl.

Gair o gyngor: Talwch gynifer o filiau misol â phosibl gyda debyd uniongyrchol misol. Byddwch yn ymestyn y costau ac yn sicrhau na fyddwch yn colli taliad. Gallai fod yn rhatach hefyd.

Biliau eraill – Cofiwch gynnwys biliau credyd a chardiau siopau, gorddrafftiau yn y banc a benthyciadau personol. Hyd yn oed os ydych chi wedi rhoi'r gorau i wario, mae dal angen ichi feddwl am ad-daliadau a llogau.

Treuliau cyffredinol y cartref – A chithau'n meddwl eich bod wedi cyrraedd diwedd y rhestr, rhaid ystyried hanfodion beunyddiol. Megis bwyd, dillad a gofal plant.

Hwyl a hamdden – Yn olaf, rhywbeth i chi. Y demtasiwn yw anwybyddu cerdyn aelodaeth y gampfa, tanysgrifiadau i gylchgronau, bwyta allan a mynd i'r dafarn. Ond oni bai eich bod yn barod i roi'r gorau iddynt, bydd angen ichi eu cynnwys yn eich cyllideb.

Cynilo – Gall y syniad o gynilo ymddangos ychydig yn hen-ffasiwn yn oes y cardiau credyd a'r benthyciadau personol. Ond mae'n bwysig os ydych chi am gadw trefn ar eich arian. Os gallwch, dylech roi arian i'w gadw bob mis i helpu i dalu am wyliau, penblwyddi, y Nadolig a materion brys – ac yn y tymor hir er mwyn sicrhau eich bod yn mwynhau ymddedioliad cysurus.

Cynllun cyllid

INCWM


- Eich cyflog
- Cyflog eich cymar/partner
- Budd-dal Plant
- Budd-daliadau anabledd
- Cymhorthdal Incwm
- Cynhaliaeth
- Credydau treth
- Pensiynau
- Llog ar gynilion
- Incwm arall
- Cyfanswm incwm**



GWARIANT

Biliau rheolaidd

- Morgais/rhent
- Treth gyngor
- Taliadau cynhaliaeth
- Trydan
- Nwy
- Trwydded teledu/tanysgrifiadau lloeren
- Dŵr
- Biliau rheolaidd eraill (e.e. rhenti offer)
- Benthyciadau personol/car
- Yswiriant bywyd
- Yswiriant adeiladau
- Yswiriant car
- Treth car
- Yswiriant cynnwys
- Biliau credyd/cardiau siopau
- Biliau rhyngrwyd
- Ffôn (symudol a llinell ddaearol)
- Arall



Biliau pob dydd

Gofal plant

Dosbarthiadau nos

Bwyd/nwyddau

Petrol

Cludiant cyhoeddus

Costau ysgol (cinio, gwisg, llyfrau)

Arall

Costau achlysurol*(canfod y gost flynyddol a rhannu wrth 12)*

Penblwyddi

Atgyweiriadau car/MOT

Y Nadolig

Dillad

Addurno ac atgyweirio'r tŷ

Deintydd, optegydd, ayb

Gwyliau

Arall

Cyfanswm gwariant**Cyfanswm incwm****tynnu Cyfanswm gwariant****Yn weddill i'w gynilo a'i wario****HAMDDEN**

Rhoddion i elusennau

Bwyta allan

Aelodaeth clwb chwaraeon

Tanysgrifiadau i gylchgronau

Gwariant arall ar hamdden
(sigarêts, melysion, ayb)

Cymdeithasu (tafarn, sinema, theatr, ayb)

Gwibdeithiau

Arall

CYNILION

Cynilion rheolaidd (e.e. ISAs)

Pensiwn

Cyfanswm gwariant

£

Gwneud i arian wneud synnwyr

Gweithredu

Hyd yn oed wedi ichi gael golwg ofalus ar eich arian, nid yw'n golygu y bydd unrhyw beth annisgwyl a chas yn codi.

Mae'n bosibl y bydd nodi eich holl incwm a gwariant ar bapur yn cadarnhau'r hyn roeddech yn ei wybod cyn hynny – eich bod yn cadw trefn ar eich arian. I chi, mae'n bosibl mai ystyr 'gweithredu' fydd 'cadw at yr hen drefn'.

Gallai llawer ohonom, er hynny, elwa ar ychydig o help ychwanegol – hyd yn oed awgrym neu ddau am ennill mwy o arian ar ein cynilion a thalu llai am fenthyca arian. Neu air i gall am ymbaratoi ar gyfer yr annisgwyl.

Mae gweddill y llyfryn hwn yn delio â'r union bethau hynny. Popeth o gynilo ar gyfer y Nadolig i gynilo ar gyfer ymddeol. O gwtogi eich gwario i gynyddu eich incwm. Ac o warchod rhag yr annisgwyl i ddygydd os bydd y gwaethaf yn digwydd.



Mae pob ceiniog o bwys

Os oes mwy o arian yn mynd allan nag sy'n dod i mewn, bydd angen ichi chwilio am ffynonellau incwm eraill neu gymryd camau i gwtogi ar eich gwariant dianghenraid.

Ond hyd yn oed os ydych chi bob amser ag arian wrth gefn, sut hoffech chi gael ychydig bunnoedd yn rhagor yn eich cyfrif banc bob mis? Mae sawl ffordd syml a di-boen i leihau eich gwariant – a symiau sylweddol iawn y gallech chi fod â hawl iddynt.

Sut i gwtogi eich gwariant

Cadw dyddiadur am fis – Cofnodwch bopeth y byddwch yn ei wario, boed yn arian parod, trwy gerdyn neu ddebyd uniongyrchol. Fe welwch y pethau diangen ymhlith y rhai hanfodol yn fuan.

Talwch fwy na'r lleiafswm – Nid yw talu'r lleiafswm ar eich biliau cardiau credyd bob mis ond yn ddigon bron i dalu'r llog. Dylech ffocysu ar ddefnyddio unrhyw arian dros ben i leihau'r balans ar y bil sydd â'r gyfradd llog uchaf – a symud ymlaen at y nesaf.

Siopa am fargen – Mae llawer o safleoedd i gymharu prisiau ar y we, yn ymwneud â phopeth o lyfrau a chryno ddisgiau, i deithiau hedfan a phetrol. Pan fyddwch chi mewn siop, peidiwch ag ofni ceisio taro bargaen.

Targedu eich biliau ynni – Gall leihau eich gwres o un radd, neu eich dŵr o bum gradd wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Diffoddwch y goleuadau wrth ichi adael yr ystafell, a pheidiwch â gadael offer trydan heb eu diffodd yn gyfan gwbl.

Wedyn, ystyriwch newid cyflenwyr – Yn aml mae'n rhatach prynu eich nwy gan gwmni trydan, ac fel arall. Neu mae'n bosibl bod hawl gennych i ostyngiad os byddwch yn prynu'r ddau gan yr un cwmni. Gwnewch yr un peth gyda'r ffôn a'r rhyngwyd.

Edrych ar eich tanysgrifiadau teledu – Os na fyddwch chi ond yn gwyllo ffilmiau o bryd i'w gilydd, gallai fod yn rhatach ichi rentu DVD neu fideo.

Dal y bws i'r gwaith – Bydd yn rhatach na gyrru. Yn well fyth, beth am fynd ar gefn beic neu gerdded os gallwch chi?

Sut i gynyddu eich incwm

Manteisio ar fudd-daliadau treth – Ar gyfartaledd, rydym yn talu tua 42% o'n henillion i'r Llywodraeth ar ffurf trethi uniongyrchol ac anuniongyrchol. Ffaith anochel yw talu treth ond mae'n bosibl talu llai. Os ydych yn rhiant ar blant bychain, er enghraifft, mae'n bosibl y gallwch arbed £55 yr wythnos o'ch cyflog yn gyfnewid am dalebau gofal plant o'r un gwerth. Ni fyddwch yn talu treth incwm na chyfraniadau Yswiriant Gwladol ar £2,860 y flwyddyn.

Cael ail swydd – Yn gyntaf, gallwch ofyn am oramser neu shifft ychwanegol gan eich cyflogwr presennol – mae'n llower symlach, yn enwedig o safbwynt y dreth. Yn nifyg hynny, edrychwch yn eich papur lleol am waith rhan-amser, gyda'r nos neu dros y penwythnos. Byddai wyth awr yr wythnos ar y lleiafswm cyflog (£5.52 yr awr i weithwyr dros 22 oed) yn ennill £2,300 y flwyddyn cyn talu treth.

Cael rhywun i letya – Nid oes angen ichi fuddsoddi mewn eiddo i'w rentu i wneud arian o eiddo. O dan gynllun Rhentu Ystafell y Llywodraeth, mae'n bosibl gosod ystafell yn eich tŷ fel llety ac ennill hyd at £4,250 y flwyddyn heb dalu treth. Mae hyn yn cyfateb i ychydig llai na £82 yr wythnos.

Hawlio budd-daliadau – Er ein bod i gyd yn cyfrannu trwy drethi, nid yw pawb yn hapus yn hawlio budd-daliadau'n ôl gan y Llywodraeth – ac nid yw pawb yn gymwys chwaith. Fodd bynnag, efallai y bydd yn syndod ichi ddeall am nifer y budd-daliadau y gallech chi fod â hawl iddynt. Er enghraifft, os yw cyfanswm incwm eich teulu'n llai na £58,175, mae'n bosibl y gallwch chi hawlio Credyd Treth Plant.

Mae'r wefan www.entitledto.co.uk yn cynnig cyfrifiannell ar-lein am ddim i'ch helpu i gyfrif eich hawl i fudd-daliadau a chredydau treth. Mae gwybodaeth ar gael hefyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (www.dwp.gov.uk) a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (www.hmrc.gov.uk).

Cael y budd-daliadau

Mae rhai budd-daliadau'n seiliedig ar y cyfraniadau Yswiriant Gwladol a dalwyd gennych chi. Mae'r rhain yn cynnwys cyfraniadau Lwfans Ceiswyr Gwaith, Budd-dal Analluogrwydd, pensïynau a budd-daliadau mamolaeth. Mae prawf moddion ar eraill – mae'r swm a gewch yn dibynnu ar faint o arian sydd gennych yn dod i'r tŷ. Y naill ffordd neu'r llall, mae'n dipyn o ddrysfa, a chyngor da yw ceisio cyngor gan ganolfan ddi-dâl megis eich Canolfan Cyngor Ar Bopeth Lleol (www.cyngorarbopeth.org.uk), swyddfa'r dreth neu'r Canolfan Byd Gwaith (www.jobcentreplus.gov.uk).

Yn gyffredinol, gallech hawlio budd-daliadau os:

- ydych ar incwm isel (mewn gwaith neu'n chwilio am waith)
- oes gennych blant dibynadwy
- ydych yn sâl neu'n anabl
- ydych yn gofalu am rywun
- ydych yn 60 oed neu drosodd
- ydych wedi cael profedigaeth
- ydych yn feichiog neu newydd gael baban



Dechrau cynilo

Mae gan bobl bob math o resymau dros gynilo arian wrth gefn. Efallai eich bod yn cynilo ar gyfer gwyliau neu'r Nadolig, yn casglu arian i dalu blaendal ar eich cartref, neu'n buddsoddi er mwyn ymddeol.

Os gallwch chi, syniad da yw cadw ychydig o arian wrth gefn at argyfwng 'rhag ofn'. Ond beth bynnag fo'r rheswm dros gynilo, a faint bynnag y byddwch yn ei gynilo, mae'n bwysig gwneud yn fawr o'ch arian.

Cynilo o ddydd i ddydd

Y rheol sylfaenol wrth gynilo yw gofalu bod eich arian – yr arian yr ydych chi wedi gweithio i'w wneud – yn gweithio'n galed drosoch chi. Y dyddiau hyn, mae llawer o gyfrifon cyfredol sy'n talu llog. Neu, beth am edrych ar osod arian yn erbyn rhywbeth arall. Trwy wneud hynny, gallwch ddefnyddio arian yn eich cyfrif cyfredol i dalu llai o log ar eich morgais.

Ar ôl ichi ofalu am eich cyfrif cyfredol, dylech geisio cronni swm sy'n cyfateb i gyflog am dri/chwe mis mewn cyfrif cadw, fel bod gennych chi rywbeth i droi ato os bydd argyfwng – er enghraifft, os collwch eich swydd.

Cynilo di-dreth

Does neb yn hoffi talu trethi, felly mae'n werth ystyried ISA arian parod – sef cyfrif cynilo sy'n talu llog heb dreth. Mae'r cyfraddau llog yn tueddu i fod yn uwch nag ar gyfrifon eraill, ac fel arfer gallwch gael at eich arian yn hawdd. Mae cyfyngiadau ar yr hyn y gallwch chi ei ennill ym mhob blwyddyn dreth, wrth gwrs. Gweler www.hmrc.gov.uk/cymraeg am fanylion y terfynau cyfredol.

Cynilo byrdymor

Unwaith y byddwch chi wedi defnyddio lwfans eich ISA arian parod (cofiwch, mae un gan eich partner hefyd, felly gallech chi ddyblu'r lwfans rhyngoch chi), mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried cyfrifon cynilo trethadwy. Mae'r goreuon yn talu cyfradd llog osodedig uchel os byddwch chi'n cynilo bob mis am flwyddyn. Ond cofiwch wylio eich arian yn ofalus ar ddiwedd cyfnod y cynnig – gallai gael ei symud yn awtomatig i gyfrif sydd â llog is.

Cynilo hirdymor

Os ydych chi'n cynilo arian ar gyfer rhywbeth fel gwyliau, gallwch weld y manteision yn weddol fuan. Fodd bynnag, mae cynilo am rywbeth yn y dyfodol pell, megis priodas plentyn neu eich ymddeoliad eich hun, yn gofyn disgyblaeth. Wrth lwc, gall y gwobrwyon fod yn fwy hefyd.

Dau o'r prif gyfryngau cynilo hirdymor yw ISA ecwiti a phensiynau. Mae'r ddau'n dibynnu ar y farchnad stoc i ddarparu twf yn y buddsoddiad, felly mae rhywfaint o risg ynddynt. Fodd bynnag, yn y tymor hir (10 mlynedd a rhagor) gall buddsoddi yn y farchnad stoc gynnig gwell adenillion na chyfrifon cadw.

ISAs – Mantais ISAs, ar wahân i fod yn dreth-ffeithlon, yw y gallwch chi gael at eich arian ar unrhyw adeg. Wrth gwrs, mae terfynau eto ar y swm y gallwch chi ei fuddsoddi mewn ISAs stociau a chyfranddaliadau bob blwyddyn – ond mae'n dal i fod yn ffordd dreth-ffeithlon iawn o gynilo yn y tymor hir. Gweler www.hmrc.gov.uk/cymraeg am fanylion am y terfynau cyfredol.

Pensiynau – Gall pensiynau preifat fod yn hanfodol os ydych chi am fwynhau ymddeoliad sicr. Y newydd da am gynilo mewn pensiwn yw bod eich cyfraniadau'n agored i ostyngiad treth. Mae hynny'n golygu fod rhywun sy'n talu treth ar y gyfradd sylfaenol sy'n rhoi, dyweder, £80 mewn pensiwn, mae gostyngiad treth yn codi'r swm i £100. Dyna £20 gan bobl y dreth. Mae rhai sy'n talu treth ar gyfradd uwch fel arfer yn cael hawlio 20% ar ben hynny.

Gair o gyngor: Peidiwch byth â buddsoddi arian y gallai fod arnoch ei angen yn y tymor byr yn y farchnad stoc. Os bydd prisiau cyfranddaliadau'n gostwng, gallech gael llai na'ch buddsoddiad yn ôl. Fodd bynnag, mae nwyddau ar gael sy'n eich galluogi i fuddsoddi yn y farchnad stoc ac sy'n diogelu 100% o'ch cyfalaf.

Dylai'r arian yn eich cronfa bensiwn dyfu dros amser. Wrth ichi ymddeol, mae'n bosibl y gallwch dderbyn 25% o'r gronfa fel lwmp swm di-dreth. Gellir defnyddio'r gweddill i ddarparu incwm trethadwy. Mae'r rheolau, y cyfraddau a'r terfynau'n newid o bryd i'w gilydd. Gweler www.hmrc.gov.uk/cymraeg a www.dwp.gov.uk/cymraeg am y manylion cyfredol.

Dylech geisio cyngor ariannol bob amser cyn buddsoddi mewn ISA marchnad stoc neu mewn pensiwn.

Treth a chynilion

Mae'n rhaid talu treth ar gyfrifon cynilo ar wahân i ISAs. Bydd Banciau a Chymdeithasau Adeiladu'n tynnu treth ar gynilion o 20% yn awtomatig – bydd gan drethdalwyr ar y gyfradd uchaf 20% i'w dalu ar ben hynny. Gall pobl nad ydynt yn drethdalwyr osgoi talu treth ar eu llog trwy lenwi ffurflen R85, a ddylai fod ar gael yn eu cangen. Dylai rhai sy'n ennill incwm isel a phensiynwyr sydd ag enillion trethadwy isel iawn dalu treth ar eu cynilion ar y raddfa isaf, sef 10%. Os felly, gallwch hawlio peth o'r dreth a dynnwyd gan eich banc yn ôl trwy geisio ffurflen R40 o'ch swyddfa dreth leol.



Cronfa Ymddiriedolaeth Plentyn

Er bod llawer o gyfrifon cynilo ar y farchnad yn benodol ar gyfer plant, mae'n anodd cael un gwell na'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plentyn – ac nid yn unig am fod y Llywodraeth yn rhoi taleb werth o leiaf £250 i bob plentyn newydd-anedig i'w cychwyn.

Gall rhieni, y teulu a ffrindiau wneud cyfraniadau i'r gronfa, hyd at derfyn blynyddol o £1,200 – heb dalu treth ar incwm nac enillion. Bydd y Llywodraeth yn cyfannu £250 eto pan fydd y plentyn yn saith oed.

Yn gryno, cyfrif cynilo a buddsoddi di-dreth a hirdymor yw'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plentyn (neu CTF) ar gyfer pob plentyn a aned ar neu ar ôl 1 Medi 2002. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gymwys (os ydynt yn gymwys i dderbyn Budd-dal Plant ac yn byw yn y DU) i dderbyn taleb CTF am £250 gan y Llywodraeth – neu £500 os yw'r teulu'n derbyn Credyd Treth Plant ac ag incwm o lai na £14,495.

Er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael amser i dyfu, mae'n cael ei gadw dan glo hyd nes bod y plentyn yn 18 oed, ac ni ellir cael ato cyn hynny, ond maent yn cymryd cyfrifoldeb am eu cyfrif pan yn 16 mlwydd oed. Yn 18 oed gallant ddefnyddio'r arian fel y dymunant. Er enghraifft, i helpu gyda chostau prifysgol neu i dalu blaendal ar dŷ.

Ceir tri math o gyfrif:

Cyfrifon sy'n buddsoddi mewn cyfranddaliadau – Mae'r cyfrifon hyn yn buddsoddi arian eich plentyn mewn prynu cyfranddaliadau mewn cwmniau. Mae gwerth y cyfrif yn

Gair o gyngor: Gall parau leihau eu rhwymedigaeth treth trwy gadw cynilion yn enw'r partner sy'n talu treth ar y gyfradd is. Dylid ceisio cyngor ariannol cyn gwneud unrhyw newidiadau.

gysylltiedig â pherfformiad y cwmniau, ac mae'n bwysig cofio y gall gwerth y cyfranddaliadau ostwng yn ogystal â chodi. Nid oes gwarant y bydd y buddsoddiad gwreiddiol yn cael ei ddychwelyd.

Cyfrifon budd-ddeiliaid – Mae'r rhain yn buddsoddi arian eich plentyn mewn sawl cwmni er mwyn lleihau'r risg. Pan fydd eich plentyn yn 13 oed, symudir yr arian i fuddsoddiadau risg is, fel bod yr arian yn fwy diogel wrth iddynt dynnu at y 18 oed. Cyfyngir taliadau am y math hwn o gyfrif i uchafswm o 1.5% y flwyddyn.

Cyfrifon cynilo – Os nad ydych chi am fuddsoddi mewn cyfranddaliadau, gallwch ddewis agor cyfrif cynilo. Maent yn cael eu hystyried yn lle diogel i gadw arian – ond fel arfer nid yw'r llog ond yn talu am chwyddiant, gan adael gwir werth yr arian rywbeth yn debyg.

Agor Cronfa Ymddiriedolaeth i Blentyn – Holwch yn y gangen am fanylion. Er y bydd hon yn enw'r plentyn, bydd y sawl sy'n ei hagog (y rhiant gan amlaf) yn gyfrifol am ei rheoli. Bydd y plentyn yn dod yn gyfrifol am y cyfrif pan yn 16 – ac yn cael defnyddio'r arian yn wrth gyrraedd 18 oed. Gallwch ddysgu rhagor trwy edrych ar wefan Cronfa Ymddiriedolaeth Plant y llywodraeth ar www.childtrustfund.gov.uk.

Benthyca'n ddoeth

Gall benthyca doeth lenwi bylchau byrdymor rhwng incwm a gwariant, ein helpu i brynu car neu gychwyn busnes. Ac ni allai bron neb fforddio prynu tŷ pe bai angen talu'r swm llawn ar unwaith.

Morgeisi sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o ddyled y cartref, felly dyma edrych ar y rhain yn gyntaf. Ond mae'n bwysig ystyried hefyd y dadleuon o blaid ac yn erbyn gorddrafftiau, credyd a chardiau siopau, benthyciadau personol a chytundebau cyllid.

Morgeisi

Mae'n debyg mai prynu cartref fydd y draul fwyaf yn eich bywyd ac nid oes gwadu'r wefr i gael rhywle ichi eich hun. Fodd bynnag, mae llawer o bethau i'w hystyried cyn mentro.

Hyd yn oed os gallwch chi hel yr arian am flaendal ac wedi trefnu ar gyfer ad-daliadau misol ar eich morgais, rhaid cofio ffioedd cyfreithwyr a syrffewyr, treth stamp a chostau symud. Chi hefyd fydd yn gyfrifol am unrhyw atgyweiriadau ac am gynnal a chadw'r cartref.

Er gwaethaf hynny i gyd, gall prynu tŷ fod yn fuddsoddiad gwych. A bwrw eich bod yn talu eich morgais ymhen amser, bydd gennych ased gwerthfawr. Hyd yn oed os byddwch chi'n penderfynu symud tŷ, mae'n debygol iawn (er nad oes dim sicrwydd) y bydd ei werth wedi codi, sy'n golygu elw da i chi. Gallech hyd yn oed fynd yn landlord eich hun, a rhentu ystafell i helpu gyda chostau.

Cofiwch am dreth stamp a threth tir – ar hyn o bryd mae'n cael ei chyfrif fel canran o werth cyfan eich cartref – ac mae'n cynyddu wrth i'r gwerth hwnnw gynyddu. Gweler www.hmrc.gov.uk/cymraeg am fanylion lefelau a therfynau presennol.

Faint i'w fenthyca?

Yn ogystal â chael gwybod faint y gallwch chi ei fenthyca, gofalwch eich bod yn ystyried faint y gallwch chi fforddio ei dalu mewn gwirionedd. Nid yw'r ddau beth bob amser yn cyfateb, felly peidiwch â mynd dros ben llestri!

Eich incwm – Fel rheol y bawd, gall ymgeiswyr unigol gael benthyg tair gwaith a hanner eu hincwm. Os oes dau ohonoch chi, fel arfer lluosir eich incwm ar y cyd gan 2.75.



Gwerth yr eiddo – Fel arfer, ni allwch chi fenthyca mwy na gwerth yr eiddo (neu'r hyn a dalwch amdano, os bydd hynny'n llai). Fel rheol, bydd angen ichi dalu blaendal o 5% o leiaf.

Eich blaendal – Po fwyaf y blaendal, mwyaf o opsiynau morgais fydd gennych chi – ac efallai isaf y gyfradd llog hefyd.

Faint y gallwch chi ei fforddio – Mae hyn yn gofyn am drefnu ariannol gofalus, felly ewch yn ôl i dudalen 6. Bydd angen ichi gynnwys trydan, nwy, treth gyngor ac yswiriant. Ond cofiwch docyn aelodaeth y gampfa, dillad ac arian ar gyfer cymdeithasu – oni bai eich bod yn barod i roi'r gorau iddynt.

Faint y bydd y benthyciwr yn ei roi ar fenthyg ichi – Bydd sawl peth yn effeithio ar benderfyniad y benthyciwr, megis eich hanes credyd, eich statws gwaith a chyflwr yr eiddo yr ydych chi am ei brynu.

Gair o gyngor: Os ydych chi'n meddwl cael neu newid eich morgais, dylech drafod yr opsiynau gydag ymgynghorydd morgeisi.

Dewis y morgais

Bydd y math o forgais sy'n addas ichi'n dibynnu ar eich amgylchiadau unigol a'r rhagolygon am eich cyllid dros y blynyddoedd sydd i ddod. Gyda **morgais cyfradd osod**, gallwch fod yn sicr na fydd eich taliadau'n newid am gyfnod gosodedig.

Mae **morgeisi trywydd** sy'n dilyn cyfradd sylfaen Banc Lloegr yn atyniadol ond mae angen ichi ystyried y goblygiadau petai cyfraddau llog yn codi. Mae pob cynnydd o 0.25% yn y cyfraddau llog yn ychwanegu rhyw £16 y mis at forgais ad-dalu £100,000 dros gyfnod o 25 mlynedd.

Mae opsiynau eraill gyda morgeisi megis **gosod yn erbyn** yn ddefnyddiol i rai sydd â rhywfaint o gynilon ac sydd wedi dringo'n uwch yn y byd tai. Mae'r rhain yn gweithio trwy osod eich cynilon yn erbyn eich dyled. Felly, os oes gennych chi forgais o £100,000 ac £20,000 o gynilon ni fydddech ond yn talu llog ar y gwahaniaeth o £80,000. Ond ni fydddech yn ennill unrhyw log ar eich cynilon.

Gall gosod yn erbyn fod yn gam doeth gyda'ch cyllid oherwydd mae cyfraddau cynilon yn tueddu i fod yn is na chyfraddau morgeisi ac am eich bod yn cael eich trethu ar y llog ar eich cynilon.

Benthycia arall

Symiau bychain

Yn achos benthycia yn y tymor byr, mae'n bosibl mai gorddrafft banc yw'r ateb. Trefnwch y rhain ymlaen llaw gyda'ch cangen bob amser oherwydd codir mwy o log ar orddrafft sydd heb ei awdurdodi.

Mae cardiau credyd yn cynnig ffordd hyblyg o fenthycia ond mae'n bwysig eu rheoli, rhag ofn iddynt eich rheoli chi. Gall cerdyn credyd di-log fod yn syniad da – ond cofiwch, pan ddaw'r cyfnod di-log i ben, gall y gyfradd godi'n sylweddol.

Chwarae gêm cardiau credyd

- Os nad oes gennych chi gerdyn credyd di-log, meddyliwch am dalu'r balans yn llawn bob mis, hyd yn oed os yw hyn yn golygu tynnu ar eich cynilon.
- Os na allwch chi ad-dalu'n llawn, talwch gymaint â phosibl – unwaith y cewch chi'r gyfrifen. Peidiwch ag aros tan y diwrnod 'taliad yn ddyledus' oherwydd codir y llog hyd at y diwrnod pan fydd y cwmni cardiau'n derbyn eich taliad.
- Peidiwch byth â thalu'r lleiafswm bob mis os yw'r cwmni'n codi llog. Gall gymryd blynyddoedd ichi ad-dalu'r balans ar lawer o gardiau credyd os gwnewch hynny – a byddwch yn talu llog bob cam o'r ffordd.
- Gallwch osgoi ffioedd am dalu'n hwyr trwy dalu mewn pryd. Y ffordd orau o wneud hyn yw trefnu Debyd Uniongyrchol fel bod yr arian yn cael ei gasglu'n uniongyrchol o'ch cyfrif banc. Os nad ydych chi'n siŵr faint y gallwch chi ei dalu,

trefnwch Ddebyd Uniongyrchol am y lleiafswm a gwneud taliad ar wahân am faint bynnag y gallwch chi ei fforddio bob mis.

- I gloi, gair am gardiau siopa. Gallent fod o help ichi gael un gostyngiad ond gall y gyfradd llog fod yn uchel. Y polisi gorau yw osgoi benthycia arian arnynt.

Symiau mwy

Os ydych chi'n prynu car newydd, neu gegin newydd, gall benthyciadau personol fod yn syniad da. Mae'r rhan fwyaf yn cynnig cyfraddau gosod a thymor gosod, felly byddwch yn gwybod faint yn union y byddwch chi'n ei dalu bob mis, ac am ba hyd.

Yn achos symiau mwy o ragor na £25,000, gall fod yn bosibl ichi estyn eich morgais – gallai'r gyfradd llog fod yn llawer is. Fodd bynnag, ni ddylech ond ystyried yr opsiwn hwn mewn gwirionedd os yw'r arian yn cael ei ddefnyddio i ychwanegu at werth eich cartref.

Hurbwrcasu

Mae hurbwrcasu'n ddull poblogaidd o brynu eitemau drud megis ceir, oherwydd nid ydych yn talu'r pris adwerthu llawn yn y fan a'r lle. Rydych chi'n talu blaendal, ac ad-daliadau misol wedi hynny dros gyfnod y cytunwyd arno. Fodd bynnag, gall cyfraddau llog fod yn ddrutach na mathau eraill o gredyd. Dylech fod yn wylidwrus hefyd gyda chynigion 'prynu a thalu wedyn', fel y'u gelwir. Os nad ydych chi'n talu'r ddyled ar ddyddiad y taliad, gellir ôl-ddyddio llog ar y gyfradd lawn ar yr eitem a brynwyd.



Gair o gyngor: Gallwch dderbyn cyngor annibynnol di-dâl a chwmsela ar ddyled gan sawl asiantaeth. Gweler tudalen 30 i wybod rhagor.

Cyfuno dyledion

Gall benthyca lwmp-swm symleiddio eich trefniadau ariannol, ond ni ddylid ei ddefnyddio ond i dalu'r dyledion ar log uchel os na allwch chi newid i gyfradd is.

Byddwch yn wyladwrus os ydych chi'n ystyried defnyddio cwmni i gyfuno neu reoli eich dyledion. Mae rhai'n cynnig dod â phob dyled dan yr un to. Os bydd eich ad-daliadau'n is, rhaid ichi gofio y gallech fod mewn dyled am gyfnod hwy a thalu mwy o log na phetaech chi wedi talu eich dyled eich hun. Mae'r cwmnïau hyn yn codi ffioedd uchel iawn hefyd.

Gwylwch yn enwedig y taliadau cudd ac addewidion i ddatrys eich problemau dros nos – yn enwedig os yw'r cwmni fel petai'n awgrymu y byddwch yn rhydd i ddechrau gwario eto. Gall ymwneud y cwmni effeithio ar eich statws credyd.

Bod yn barod

Yswiriant yw un o'r pethau y byddwn yn talu amdanynt gan obeithio na fyddwn ei angen byth.

Pan ddaw'n fater o rai mathau o yswiriant – ar y cartref, y car neu wyliau – mae rhai pobl hyd yn oed yn barod i gymryd risg (anghyfreithlon yn aml) a pheidio â thalu am yswiriant o gwbl.

Fodd bynnag, nid oes amau pwysigrwydd amddiffyn eich teulu a diogelu eich incwm. Yn amheus? Meddyliwch sut y gallai eich teulu ymdopi'n ariannol petaech chi'n marw. Neu sut y byddech chi'n dygymod pe na allech chi weithio am gyfnod hir.

Yswiriant bywyd

Yr yswiriant symlaf yw yswiriant tymor penodedig. Byddwch yn talu premiwm gosod bob mis ac os byddwch chi'n marw cyn dyddiad penodol, bydd eich teulu'n derbyn lwmp swm mewn arian parod. Mae'n gymharol rad, a gall fod yn ddelfrydol ar gyfer rhywun sydd heb gynllun yswiriant da gan gyflogwr. Gallwch gael yswiriant tymor gostyngol hefyd i dalu am eich morgais – mae ychydig yn rhatach oherwydd mae'r yswiriant bywyd yn gostwng wrth i falans eich morgais ostwng. Yn ddelfrydol, dylai fod gennych yswiriant ar wahân i'ch morgais a'ch teulu.

Budd-dal incwm teulu

Dyma fath arall o yswiriant bywyd, ond bod hwn yn talu symiau misol di-dreth o adeg y farwolaeth hyd ddiwedd tymor y polisi, yn lle lwmp swm. Mae'n rhad am fod yr yswiriant bywyd yn gostwng trwy dymor y polisi. Pe baech yn marw, dyweder, chwe mis cyn i'r polisi ddod i ben, ni fydd eich cymar ond yn cael chwe thaliad misol yn hytrach na lwmp swm mawr.

Yswiriant salwch critigol

Ychydig iawn o gyflogwyr a fydd yn talu eich cyflog llawn ar ôl chwe mis o analluogrwydd, ac mae help y Llywodraeth ar ffurf Budd-dal Analluogrwydd hirdymor yn llai na £100 yr wythnos. Bydd yswiriant salwch difrifol yn talu lwmp swm mewn arian parod os cewch chi ddiagnosis o salwch neu gyflwr penodol, neu os oes rhaid ichi dderbyn rhai mathau o lawdriniaeth.



Yswiriant Diogelu Taliadau Morgais

Bydd MPPI fel y'i hadwaenir yn gyffredin, yn talu eich morgais bob mis os na allwch chi weithio oherwydd salwch, damwain neu ddiffyg gwaith. Mae rhai polisiau'n well na'i gilydd. Gofalwch fod eich gwaith yn rhan o'r polisi, am faint y mae'n rhaid ichi aros cyn iddo ddechrau talu ac am faint y bydd yn parhau i dalu. Cofiwch, ni fydd y rhan fwyaf o gynlluniau ond yn talu'r ad-daliad morgais ei hun am hyd at 12 mis, felly dylech ofalu fod gennych yswiriant arall yn ei le er mwyn cael sicrwydd llawn.

Yswiriant arall i warchod taliadau

Y cwestiynau mawr yma yw: a oes ei angen, ac a ydych chi'n cael gwerth eich arian? Os ydych chi'n talu eich cerdyn credyd bob mis neu os oes gennych chi ddigon o gynilon i dalu'r hyn sy'n ddyledus, nid oes angen yswiriant. Ond fel arall, gallai fod yn werth ichi ei ystyried. Dylech ystyried hefyd beth a fyddai'n digwydd pe na allech chi wneud yr ad-daliadau ar fenthyciad car neu fenthyciad personol. Unwaith eto, mae rhai polisiau'n well na'i gilydd, felly darllenwch y print mân bob amser er mwyn sicrhau eich bod wedi'ch yswirio. Er enghraifft, mae rhai polisiau'n llai tebygol o dalu os ydych chi mewn swydd risg uchel, neu os collwch chi eich swydd a'ch partner yn dal mewn gwaith.

Gair o gyngor: Mae yswiriant bywyd sylfaenol yn debyg, pwy bynnag sy'n darparu'r polisi. Fodd bynnag, mae prisiau a gwasanaethau'n amrywio, felly byddwch yn barod i wneud ychydig o ymchwil – nid yr opsiwn rhataf yw'r opsiwn gorau bob amser.

Yswiriant damweiniau, salwch a diweithdra (ASU)

Gall hwn eich achub os byddwch yn colli eich swydd neu'n methu gweithio. Ond gall fod yn ddrud oni bai eich bod yn barod i aros am ychydig fisoedd am y taliad cyntaf. Dylech ofalu hefyd a yw eich swydd a'ch telerau cyflogaeth yn berthnasol i'r cynllun. Cofiwch, mae'r math yma o gynlluniau fel arfer yn talu symiau cymharol fychain am gyfnod cymharol fyr (e.e. 12 mis).

Yswiriant meddygol

Os nod ydych chi'n fodlon ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu am wybod y gallwch gael triniaeth sy'n gyfleus i chi, un opsiwn yw yswiriant meddygol annibynnol. Ac os ydych chi'n hunangyflogedig ac yn methu aros am driniaeth, gallech ei ystyried yn fuddsoddiad gwerth chweil.

Nid yw pob salwch a chyflwr a ddisgwyliech yn cael eu hyswirio gan bob polisi salwch parhaol. Dylech wirio'r math o afiechydon a'r nifer yn ofalus. Er enghraifft, erbyn hyn mae rhai mathau o ganser yn cael eu heithrio fel arfer.

Gwarant estynedig

Mae hwn ar gael ar unrhyw beth o deledu newydd i beiriant golchi neu ffôn symudol, ond meddylwch yn ofalus iawn cyn derbyn. Yn gyntaf, gall fod yn ddrud iawn. Yn ail, mae'r rhan fwyaf o ddiffygion yn dod i'r amlwg pan dynnir yr offer newydd o'r bocs – pan fydd dan warant beth bynnag. Gallai fod yn well ichi gynilo'r arian i dalu am atgyweiriadau neu am brynu nwyddau newydd yn eu lle yn y dyfodol.



Delio â'r annisgwyl

Er cystal eich cynlluniau, bydd bob amser ddigwyddiadau mawr yn eich bywyd a fydd yn rhoi ysgytwad ichi.

Gall colli rhywun annwyl, ysgariad, salwch a cholli swydd roi straen aruthrol arnoch chi a'ch arian. Ond gall pethau hapusach, megis geni plentyn, eich gorfodi hefyd i wynebu'r caswir am eich trefniadau ariannol. Gall ymddeol fod yn rhywbeth i edrych ymlaen ato hefyd – nes i realiti incwm llai wawrio arnoch.

Wrth gwrs, ni all neb ragweld mewn gwirionedd beth sydd ar y gorwel. Serch hynny, mae rhai pethau y gallwch chi eu gwneud er mwyn sicrhau eich bod yn barod – a chmau i'w cymryd pan fydd hynny'n digwydd.

Colli eich swydd

Cynllunio ymlaen llaw:

- Dylech geisio cronni cronfa o arian wrth gefn (cyflog tri i chwe mis, dyweder) mewn cyfrif hawdd cael ato.
- Ystyriwch yswiriant colli swydd, ond byddwch yn ymwybodol na fydd yn talu os gwydddech chi eich bod yn debygol o golli eich swydd wrth ichi wneud cais.

Os bydd yn digwydd:

- Rhowch unrhyw arian wrth ichi golli eich gwaith mewn cyfrif cynilo gyda llog uchel a mynediad hawdd. Peidiwch â'i fuddsoddi mewn cynilon hirdymor – mae'n bosibl y bydd ei angen ar frys.
- Lluniwch gyllideb i sicrhau y gallwch chi dalu biliau hanfodol ac, os oes angen, cwtogwch ar y pethau diangen.
- Os oes gennych chi bryderon am arian, dywedwch wrth fenthyciwr eich morgais.
- Edrychwch ar eich polisiau yswiriant.
- Mae'n werth gweld a oes gennych chi hawl i fudd-dal treth neu fudd-daliadau'r wladwriaeth. Gall eich swyddfa dreth leol, y Canolfan Cyngor Ar Bopeth neu'r Canolfan Byd Gwaith eich helpu.

Ysgariad/Tor-perthynas

Cynllunio ymlaen llaw:

- Does neb yn cynllunio rhag ofn ysgariad ond os gwelwch fod un ar y gorwel, ceisiwch gyngor cyfreithiol cyn gynted ag y bo modd.
- Os yw'r gwahaniad yn debygol o fod yn un cyfeillgar, gofalwch fod gennych chi gyfrifon banc ar wahân fel bod gennych chi rywfaent o breifatrwydd ariannol ar unwaith.
- Cadwch gofnod o'ch gwariant fel y gallwch chi brofi eich safon byw.

Os bydd yn digwydd:

- Torrwch gysylltiadau ariannol cyn gynted ac mewn ffordd mor lân â phosibl. Os nad ydych chi wedi gwneud hynny eisoes, trefnwch eich cyfrif banc a'ch cardiau credyd eich hun.
- Gofalwch fod gennych chi gofnod clir o sefyllfa ariannol eich cyn-bartner, gan gynnwys eu pensiwn ac unrhyw asedau ar y cyd, megis cynilon ac eiddo.
- Gofalwch a oes gennych chi hawl i unrhyw gredydau treth neu fudd-daliadau. Pan fyddwch yn dechrau byw ar eich pen eich hun, gallai fod hawl gennych i Gredyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith. Gallech fod yn gymwys hefyd i gael gostyngiad ar eich treth gyngor.
- Edrychwch dros eich trefniadau yswiriant.
- Cymerwch yswiriant bywyd ar eich cyn-bartner i ofalu am daliadau cynhaliaeth.
- Lluniwch Ewyllys newydd er mwyn sicrhau bod eich plant a dibynyddion eraill yn cael eu gwarchod os byddwch yn marw – ac i fod yn sicr bod eich arian yn mynd i'r bobl iawn.

- Ceisiwch beidio â gadael i unrhyw ddrwgdeimlad personol amharu ar benderfyniadau ynglŷn ag arian. Po fwyaf y ffraeon rhwng cyfreithwyr, mwyaf oll y gost.
- Ceisiwch gyngor cyfreithiol ar Orchymyn Cydsyniad i geisio osgoi'r posibilrwydd y bydd eich partner yn dod ar eich gofyn am ragor o arian yn nes ymlaen.

Salwch

Cynllunio ymlaen llaw:

- Mae nifer ohonom yn gweld cynllunio ein harian yn anodd ymhellach na chael ychydig o arian wrth gefn ar gyfer argyfwng a phrynu tŷ. Golyga hyn y gallai salwch critigol cael effaith mawr ar arian eich cartref.
- Ystyriwch sut byddwch yn ymdopi pe bai cwmp yn eich incwm o ganlyniad salwch – a oes gennych gynilion neu fuddsoddiadau? Beth yw polisi salwch eich cwmni? A oes polisi yswiriant gennych y gellid hawlio ohono? A fydddech yn dibynnu ar fudd-daliadau gwladol? Oes darpariaeth gennych ar gyfer eich ymddeoliad?
- Os ydy rhywun yn dibynnu arnoch yn ariannol neu os ydych yn rhannu treuliau cartref gyda rhywun arall, mae'n bosib bod angen i chi ystyried sut byddant yn ymdopi pe baech yn marw neu'n mynd yn sâl.
- Os nad oes yswiriant bywyd na salwch critigol gennych, ystyriwch a hoffech ei gymryd allan gan na fydd y rhan fwyaf o yswirwyr yn darparu sicrwydd yswiriant i'r rheiny sydd â salwch sydd eisoes yn bod.
- Dylech sicrhau bod ewyllys cyfoes gennych er mwyn sicrhau bod y bobl gywir yn etifeddu eich ystâd.



Os bydd yn digwydd:

- Gweithredwch yn gynnar. Mae gwadu bod y broblem yno yn gwaethygu'r sefyllfa ariannol ac yn achosi straen.
- Mae angen adolygu trefniadau ariannol presennol a gwneud rhai newydd er mwyn adlewyrchu'r newid yn eich amgylchiadau.
- I lawer o gartrefi, golyga salwch cwmp mewn incwm ynghyd â threuliau ychwanegol, felly efallai dyma'r amser i ddefnyddio'r arian a osodwyd wrth gefn mewn cronfa argyfwng.
- Os bydd gan rywun gynilion neu fuddsoddiadau sylweddol, fe all bod yn bosib i'w had-drefnu fel eu bod yn darparu incwm rheolaidd os oes angen.
- Edrychwch ar ffyrdd o gwtogi gwariant – ystyriwch eich darparwr morgais presennol, darparwr tanwydd neu unrhyw fenthyciadau a gwiriwch a ydych yn derbyn y cyfraddau orau.
- Mynnwch gyngor ar ba fudd-daliadau (gan gynnwys lwfans byw i'r anabl; budd-dal treth cyngor & tai; cymorth gyda chost trafndiaeth ayb) sydd ar gael i chi a'ch teulu o ganlyniad i salwch critigol, megis diagnosis o gancr. Gall gofaluwr hefyd fod yn gymwys i dderbyn budd-daliadau ynghyd â'r rheiny sydd wedi derbyn diagnosis o gancr. Mae'r system Budd-daliadau yn un cymhleth ac mae'n syniad ymofyn cyngor arbenigol.
- Edrychwch mewn nifer o lefydd am gynnyrch megis yswiriant teithio.
- Mae nifer o elusennau, gan gynnwys Macmillan Cancer Support, yn rhoi grantiau i bobl sydd wedi'u heffeithio gan gancr.

Profedigaeth

Cynllunio ymlaen llaw:

- Gofalwch fod gennych chi yswiriant bywyd digonol.
- Ysgrifennwch Ewyllys er mwyn sicrhau bod eich arian yn mynd i'r bobl iawn. Os byddwch yn marw heb Ewyllys, bydd eich ystâd yn cael ei rhannu yn unol â rheolau llym a bydd yn cymryd mwy o amser i'w datrys.
- Gofalwch fod ymddiriedolwyr eich pensiynau galwedigaethol a phreifat yn gwybod yr hyn a hoffech chi os byddwch yn marw.

Os bydd yn digwydd:

- Cysylltwch â'r holl sefydliadau lle'r oedd gan eich partner berthynas ariannol er mwyn trefnu taliadau yswiriant ac i ofalu bod pensiynau'n parhau i gyrraedd.
- Mynnwch gopïau ychwanegol o'r dystysgrif marwolaeth – nid yw'r rhan fwyaf o sefydliadau'n derbyn llungopïau.
- Edrychwch a oes gennych chi hawl i help ariannol ychwanegol, megis Lwfans Profedigaeth, Taliad Profedigaeth a Lwfans Rhieni Gweddw.
- Peidiwch â gadael i neb wneud ichi benderfynu dim ar frys.
- Os yw eich partner wedi gofalu am eich cyllid, mynnwch gyngor ar gyllid o ddydd i ddydd a thalu'r biliau.
- Ceisiwch gyngor ar fuddsoddiadau os ydych chi wedi derbyn arian o bolisi yswiriant neu bensiw.

Cael baban

Cynllunio ymlaen llaw:

- Paratowch gyllideb – a allwch chi fforddio rhoi'r gorau i'ch gwaith?
- Meddyliwch am ble'r ydych chi'n mynd i fyw. A oes angen tŷ mwy neu un sy'n agos at ofal plant ac ysgolion?
- Edrychwch i weld a ydych chi'n debygol o fod â hawl i Gredyd Treth Plant.

Pan fydd yn digwydd:

- Agorwch Gronfa Ymddiriedolaeth Plant.
- Gwnewch Ewyllys – neu diwygiwch eich Ewyllys presennol.
- Ystyriwch yswiriant bywyd, yswiriant salwch critigol ac yswiriant gwarchod incwm.
- Ystyriwch yr opsiwn gorau i fenthyca'r arian angenrheidiol i brynu car mwy neu i addasu eich cartref.

Ymddeol

Cynllunio ymlaen llaw:

- Ewch ati i gynilo cyn gynted â phosibl.
- Peidiwch ag ymddeol yn rhy gynnar.
- Paratowch gyllideb – a allwch chi fforddio ymddeol?
- Peidiwch ag amcangyfrif eich incwm yn rhy isel, na'r gost o'i ddarparu.

Pan fydd yn digwydd:

- Edrychwch a oes gennych hawl i Gredyd Pensiwn.
- Gofalwch eich bod yn derbyn yr holl fudd-daliadau y mae gennych chi hawl iddynt. Gall Gofal yr Henoed neu eich Canolfan Cyngor Ar Bopeth lleol eich helpu.
- Os bydd polisi buddsoddi wedi aeddfedu, neu os ydych chi wedi derbyn pensiwn fel lwmp swm, ceisiwch gyngor ariannol.
- Os nad ydych chi'n talu treth bellach, llenwch ffurflen R85 i gael talu llog yn eich banc fel crynswth. Ystyriwch fuddsoddiadau trethadwy os yw'r enillion yn well.
- Yn cael trafferthion ariannol? Oes modd cael swydd ran-amser?



Delio â dyled

Weithiau, er gwaethaf ymdrech deg rydym yn ein cael ein hunain mewn dyled. Ond mae llawer o bobl yn ei chael yn anodd cadw trefn ar eu harian rywbyrd mewn bywyd – nid oes dim cywilydd yn y peth.

Gall dyled fod yn broblem am bob math o resymau. Fel y gwelwch, mae colli swydd, salwch, gwahanu oddi wrth eich partner, neu hyd yn oed gael baban newydd yn rhoi straen ar eich trefniadau ariannol. Peidiwch â chynhyrfu, mae sawl ffordd o adfer eich rheolaeth. Gallech ystyried troi rhai o'ch asedau'n arian, megis stociau a chyfranddaliadau, i ad-dalu'r ddyled.

Y rheolau aur

- Peidiwch â chynhyrfu nac anwybyddu'r broblem.
- Peidiwch â benthycu arian i dalu'r dyledion heb feddwl yn ofalus. A pheidiwch â derbyn benthyciad wedi'i warantu ar eich cartref heb geisio cyngor annibynnol ymlaen llaw.
- Gwyliwch a yw eich yswiriant yn gofalu am eich taliadau.
- Gofalwch eich bod yn hawlio pob budd-dal a phob credyd treth a allwch.
- Cysylltwch â PHOB credydwr ar unwaith – gwnewch gyllideb bersonol ac anfon copi.
- Talwch y prif ddyledion yn gyntaf (treth, morgais a benthyciadau wedi'u gwarantu).
- Meddyliwch am gynigion ad-daliadau rhesymol y gallwch eu fforddio.
- Ceisiwch gyngor ariannol annibynnol DI-DÂL.

Sut y gall NatWest eich helpu

Os ydych chi'n gwsmer ac yn eich cael eich hun mewn anawsterau ariannol, byddwn yn delio â chi gyda chydymdeimlad ac yn bositif.

Gallwch gysylltu â'n hymgyngorwyr ar **0845 303 9015** Ffôn Testun **0845 900 5961** (8am i 8pm Llun – Gwener, 9am i 5pm Sadwrn). Gellir recordio galwadau. Y tâl uchaf o linell ddaearol BT yw 4c y funud. Gall galwadau o rwydweithiau eraill amrywio.

Gallwch:

- siarad gyda staff penodedig, sydd wedi derbyn hyfforddiant arbenigol i'ch helpu i gadw rheolaeth
- drafod pob opsiwn i'ch cynorthwyo i ddatrys y sefyllfa
- dderbyn cymorth i fonitro eich trefniadau ariannol yn ofalus, er mwyn eich helpu i ddod trwy'r cyfnod anodd hwn

Nid yw byth yn rhy gynnar

Hyd yn oed os nad ydych chi'n meddwl eich bod yn cael anawsterau ariannol, os ydych chi'n gwsmer cewch fanteisio ar Arolwg Personol ar unrhyw adeg. Gallwn eich helpu i sicrhau eich bod yn gwneud y defnydd gorau o'ch arian o ran yr ystod a'r mathau o gynnyrch ariannol yr ydych yn ei ddefnyddio. Siaradwch â Chynghorydd Cwsmeriaid mewn un o'n canghennau a bydd yn bleser ganddo neu ganddi drefnu cyfarfod ar amser ac mewn lle sydd fwyaf cyfleus i chi.

Pwy arall a all helpu?

Mae NatWest yn cefnogi defnyddio'r sector cyngor di-dâl ar arian. Gallwch gael cyngor ariannol gan Ganolfannau Cyngor Ar Bopeth, swyddfeydd awdurdodau lleol, canolfannau cynghori lleol a llinellau cymorth.

Sut mae'r sector cyngor ariannol o help?

Gall y sector cyngor ariannol gynnig dull strwythuredig ichi reoli eich dyled bersonol. Mae ymgynghorwyr wedi cael eu hyfforddi i adnabod eich problemau, asesu'r sefyllfa ariannol gyffredinol, eich sicrhau, gwneud y gorau o'ch incwm lle bo modd a negodi gyda chredydwy'r ar eich rhan. Mae rhai ymgynghorwyr yn cynnig gwasanaethau cynrychioli. Mae ymgynghorwyr yn meddu ar wybodaeth am ystod eang o faterion ariannol, gan gynnwys deddfwriaeth am gredyd defnyddwyr, tai a threfniadau llysoedd.

Gall ymgynghorydd ariannol:

- eich helpu i weithio eich incwm a'ch gwariant a llenwi Ffurflen Gyllid Bersonol
- edrych ar eich opsiynau gyda chi ar sut i ddelio â'ch dyledion a phenderfynu faint o arian sydd gennych i dalu eich dyledion
- canfod a oes hawl gennych i incwm ychwanegol megis budd-daliadau'r wladwriaeth, credydau treth neu lwfansau treth
- gwirio a ydych yn gyfrifol am y dyledion y gofynnir ichi eu talu
- gofalu eich bod yn talu'r dyledion pwysicaf yn gyntaf
- eich helpu i adrefnu cynlluniau i ad-dalu gyda'r bobl y mae arnoch chi arian iddynt
- cynnig cyngor ar ble i gael help gyda phroblemau eraill megis colli swydd neu ysgariad

Rwyf wedi gweld hysbyseb am gwmni sy'n rheoli dyled, a all hwnnw fy helpu?

Mae cred gyffredin y bydd cwmnïau rheoli dyledion yn gofalu am reoli eich dyled. Nid ydynt yn gwneud hynny. Maent yn siarad gyda'r benthycwyr ar eich rhan ond maent yn codi ffi am wneud. Opsiwn arall yw ichi siarad gyda'ch credydwy'r yn uniongyrchol, am ddim. Gallwch siarad hefyd gyda nifer o asiantaethau cynghori di-dâl, yn y rhestr drosodd, i'ch helpu i reoli eich dyled.



Sut y bydd gostwng ad-daliadau'n effeithio ar fy statws credyd?

Mae gwybodaeth am eich cyfrif yn cael ei throsglwyddo i asiantaethau credyd bob mis, yn cynnwys manylion am eich hanes ad-dalu i fenthycwyr potensial newydd. Gall hyn effeithio ar eich gallu i gael credyd newydd yn y dyfodol. Gallwch wirio pa wybodaeth sydd gan Asiantaethau Credyd amdanoch trwy ysgrifennu i'r canlynol:

- Equifax Plc, Credit File Advice Service, PO Box 3001, Glasgow G81 2DT
- Experian Ltd, Consumer Help Service, PO Box 8000, Nottingham NG80 7WF
I archebu copi caled o'ch adroddiad credyd, ewch i www.experian.co.uk neu galwch 0844 481 8000.
- Callcredit Plc, Customer Service Team, PO Box 491, Leeds LS1 5XX

Ble i gael help

AdviceUK

Rhwydwaith mawr o sefydliadau sy'n darparu cyngor.

Am fanylion am eich canolfan cyngori agosaf:

Ffoniwch **020 7407 4070**

Ewch i www.adviceuk.org.uk

Neu edrychwch yn y Tudalennau Melyn o dan 'Counselling and advice'.

Canolfan Cyngor Ar Bopeth (CAB)

Yn cynnig cyngor di-dâl, cyfrinachol ac amhleidiol ar ystod eang o broblemau.

Gellir gweld manylion am eich CAB agosaf yn eich llyfr ffôn neu yn y Tudalennau Melyn dan 'Counselling and advice'.

I gael cyngor ar-lein neu i gael hyd i CAB lleol:

Ewch i www.adviceguide.org.uk

Macmillan Cancer Support

Mae Macmillan Cancer Support yn gwella bywydau pobl sydd wedi'u heffeithio gan gancr. Maent yn darparu cefnogaeth ymarferol, feddygol, emosiynol ac ariannol ac maent yn ymgyrchu ar gyfer gofal cancr gwell.

Ffoniwch **0800 500 800** am wybodaeth ynghylch sut i dderbyn cyngor ar hawlio budd-daliadau.

Ewch i www.macmillan.org.uk am restr o gynghorwyr lleol a llyfryn Macmillan *Help me with the cost of cancer*.

Mae'r llinell ar agor rhwng 8yb a 8yh, Dydd Llun – Dydd Gwener.

Gwasanaeth Cyngori Credyd Defnyddwyr (CCCS)

Elusen sydd yn darparu cyngor annibynnol a diduedd yn rhad ac am ddim ar ystod eang o wasanaethau gan gynnwys, cyngor ynghylch dyledion (ar y ffôn neu dros y we), Cynlluniau Rheoli Dyled ac IVAs i'ch helpu i ad-dalu'ch dyledion a chyngor arbenigol ar fethdaliad a budd-daliadau lles.

Ffoniwch **0800 138 1111** 8yb a 8yh, Dydd Llun hyd Ddydd Gwener. Ewch i www.cccs.co.uk neu www.cccs.co.uk/ref/drbc am sesiwn cyngor llawn ar-lein ynghylch dyledion rhyngweithiol.

Llinell Ddyled Genedlaethol

Yn darparu cyngor di-dâl, annibynnol, cyfrinachol ac amhleidiol dros y ffôn.

Ffoniwch **0808 808 4000**

Ewch i www.nationaldebtline.co.uk

Mae'r llinell ar agor rhwng 9yb a 9yh, Ddydd Llun i Ddydd Gwener ac o 9.30yb i 1yp ar Ddydd Sadwrn.

Payplan

Mae Payplan yn cynnig gwasanaeth rheoli dyled rhad ac am ddim.

Ffoniwch **0800 085 4298**

Ewch i www.payplan.com



Cysylltiadau defnyddiol eraill

Directgov

Safle yn perthyn i'r Llywodraeth gyda gwybodaeth am reoli eich arian, dyled, pensïonau, budd-daliadau a materion eraill.

Ewch i www.direct.gov.uk/cymraeg

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

Popeth sydd angen ichi ei wybod am dreth a chredydau treth.

Ewch i www.hmrc.gov.uk/cymraeg

Adran Gwaith a Phensiynau

Y man cychwyn ar gyfer cwestiynau am fudd-daliadau o bob math. Ewch i www.dwp.gov.uk/cymraeg

Financial Services Authority

Safle yn darparu ffeithiau ynghylch cynnyrch a gwasanaethau ariannol, gan eich helpu i ddod at benderfyniad gwybodus.

Ewch i www.moneyadeclear.fsa.gov.uk/help/cymraeg



Er mwyn gwneud rhagor o synnwyr
o'ch arian, ymwelwch â
natwest.com/moneysense

Mon£ySense

another way